# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 7 Rhagfyr 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## 38(v3)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## Cwestiwn Brys 1

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatganoli masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, yn dilyn sylwadau gan yr

Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ddoe sy'n awgrymu na fydd Llywodraeth y DU yn datganoli'r fasnachfraint yn ei chyfanrwydd?

## Cwestiwn Brys 2

**Simon Thomas (Canolbarth A Gorllewi):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â chamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i warchod adar Cymru rhag ffliw adar?

## 3 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 4 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

**NDM6144**

Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)
Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)
Vikki Howells (Cwm Cynon)
Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)
Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi:

a) bod lefelau gordewdra yng Nghymru yn parhau i godi ac mae gordewdra yn fwy cyffredin ymysg cymunedau tlawd;

b) bod newid arferion bwyta pobl yn gymhleth ac yn golygu cyfuniad o sicrhau bod bwyd da ar gael ac yn fforddiadwy a sgiliau coginio;

c) nad yw Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 wedi cael effaith sylweddol hyd yma ar faint o ymarfer corff y mae pobl yn ei wneud;

d) mai dim ond drwy ddegawdau o addysg a chamau gweithredu caled y llywodraeth y mae cyfraddau ysmygu wedi disgyn, a bod hyn wedi digwydd yn erbyn ymdrechion y diwydiant tybaco i wadu'r wyddoniaeth a rhwystro camau gweithredu'r llywodraeth; ac

e) bod angen cyfuniad o addysg, deddfwriaeth a chaffael cyhoeddus i fynd i'r afael â phroblem gynyddol yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd.

'Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013'

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6182**

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU;

2. Yn cydnabod y cyhoeddiad y bydd Llywodraeth Cymru yn elwa ar £436 miliwn yn ychwanegol erbyn 2020-21 i'w chyllidebau cyfalaf o Ddatganiad yr Hydref;

3. Yn nodi y bydd Llywodraeth y DU yn codi'r Cyflog Byw Cenedlaethol i £7.50 i gefnogi swyddi ac enillion ledled y DU;

4. Yn nodi ymhellach y bydd y trothwy Lwfans Personol a Chyfradd Uwch yn codi i £12,000 a £50,000 yn y drefn honno erbyn 2020-21, gan leihau'r bil treth incwm i 1.4 miliwn o unigolion yng Nghymru erbyn 2017-18.

'Datganiad yr Hydref 2016'

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn**

**Gwelliant 1. Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le, gan ailrifo yn unol â hynny:

2. Yn nodi bod Datganiad yr Hydref yn cynnwys dyraniadau cyfalaf ychwanegol ar gyfer cyllideb Cymru o £442m rhwng 2016-17 a 2020-21.

3. Yn gresynu na ddefnyddiodd Llywodraeth y DU Ddatganiad yr Hydref i ddod â'i pholisi niweidiol o gyni cyllidol i ben.

4. Yn gresynu na gydnabu Llywodraeth y DU yr angen am fuddsoddiad yn y gwasanaeth iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol eraill yn Natganiad yr Hydref.

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod Llywodraeth y DU wedi methu ag ymrwymo i amserlen ar gyfer cyflwyno trydaneiddio rheilffordd y Great Western rhwng Caerdydd ac Abertawe, a thrydaneiddio prif reilffordd Gogledd Cymru.

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod Llywodraeth y DU wedi methu ag ymrwymo i ddarparu morlyn llanw Bae Abertawe.

**Gwelliant 4.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod Llywodraeth y DU wedi methu â dynodi HS2 fel prosiect seilwaith Lloegr yn unig.

**Gwelliant 5.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at fethiant Llywodraeth y DU i ddatganoli'r doll teithwyr awyr.

## 6 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

(60 munud)

NDM6181

Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru):
Gareth Bennett (Canol De Cymru):

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynigion gan Lywodraeth y DU i ddileu ffioedd a godir gan asiantau gosod i denantiaid yn Lloegr.

2. Yn gresynu bod tenantiaid yn talu £233, ar gyfartaledd, mewn ffioedd gosod.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

(a) cymryd camau i ystyried effaith dileu'r ffioedd hyn, sydd eisoes wedi digwydd yn yr Alban;

(b) cyflwyno deddfwriaeth yn y Cynulliad hwn i wahardd ffioedd rhentwyr, gan sicrhau na ellir codi'r costau hyn, wedyn, ar:

(i) tenantiaid, drwy godi rhenti artiffisial uwch; a

(ii) landlordiaid preifat, gan nodi eu bod yn rhan werthfawr o'r broses o helpu rhentwyr ar yr ysgol eiddo.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):

-
Ychwanegu fel pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi methu â manteisio ar y cyfle yn y Cynulliad blaenorol i wahardd ffioedd gormodol gan asiantau gosod.

**Gwelliant 2.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Ym mhwynt 3, dileu is-bwyntiau (a) a (b) a rhoi yn eu lle:

(a) ystyried sut y gallai deddfwriaeth ar y maes hwn weithio yng ngoleuni tystiolaeth ar effaith dileu'r ffioedd hyn yn yr Alban a'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn Lloegr.

(b) ymgynghori â'r pleidiau eraill yn y Cynulliad, a rhanddeiliaid, ar y ffordd orau ymlaen i Gymru.

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):

Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

ystyried ymhellach ffyrdd o fynd i'r afael â thaliadau gwasanaeth gormodol ac annheg, neu gynnydd heb gyfiawnhad mewn taliadau gwasanaeth, a gaiff eu gosod ar lesddeiliaid.

**Gwelliant 4.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):

-
Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu, os yw Llywodraeth Cymru wedi llunio cyngor cyfreithiol yn awgrymu y byddai Bil ar wahardd ffioedd gormodol asiantau y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, y dylai'r cyngor hwn gael ei gyhoeddi.

## Cwestiwn Brys 3

**Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff Llywodraeth Cymru ddatganiad am ganlyniad trafodaethau diweddar rhwng Tata Steel a'r Undebau ynghylch dyfodol ei weithgareddau yng Nghymru a Phrydain?

## 7 Cyfnod pleidleisio

## 8 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6183**

John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):

Casnewydd – dinas ar i fyny

Tynnu sylw at adfywiad, twf a photensial dyfodol Casnewydd a'r cyffiniau.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 30 Tachwedd 2016
# i'w hateb ar 7 Rhagfyr 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

**1.** Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran Cylchffordd Cymru? OAQ(5)0092(EI)

**2.** Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion y llywodraeth i gefnogi busnesau bach yn Arfon? OAQ(5)0089(EI)**W**

**3.** Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Sut y bydd y polisïau yn rhaglen Llywodraeth Cymru, 'Symud Cymru Ymlaen', yn gwella gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru? OAQ(5)0077(EI)

**4.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith bancio stryd fawr ar fusnesau yn Ynys Môn? OAQ(5)0090(EI)**W**

**5.** Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer seilwaith yn sgil Datganiad yr Hydref y Canghellor? OAQ(5)0083(EI)

**6.** Lee Waters (Llanelli): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith bosibl y pedwerydd chwyldro diwydiannol ar swyddi yng Nghymru? OAQ(5)0088(EI)

**7.** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adeiladau rhestredig gradd 1 yng Nghymru? OAQ(5)0079(EI)

**8.** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo celf a diwylliant Cymru dramor? OAQ(5)0093(EI)

**9.** Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun Cyflymu Cymru? OAQ(5)0095(EI)

**10.** Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr ymwelwyr o dramor â Chymru dros y pum mlynedd diwethaf? OAQ(5)0082(EI)

**11.** Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr ystyriaeth y mae wedi'i rhoi i ganolbarth Cymru wrth lunio strategaeth economaidd newydd Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0087(EI)

**12.** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth signal symudol yng Nghymru? OAQ(5)0094(EI)**W**

**13.** Mark Reckless (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwerau priodol unigol Llywodraethau Cymru a'r DU o ran tollau pontydd Hafren ar ôl eu dychwelyd i'r sector cyhoeddus? OAQ(5)0084(EI)

**14.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisïau economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer Sir Benfro? OAQ(5)0078(EI)

**15.** Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella rhagolygon o ran cyflogaeth yng Nghymru? OAQ(5)0080(EI)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

**1.** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am anhwylderau cysgu nad ydynt yn ymwneud ag anadlu? OAQ(5)0092(HWS)**W**

**2.** Leanne Wood (Rhondda): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith parhaus i sicrhau gofal cyfartal ar gyfer cleifion y GIG ledled Cymru? OAQ(5)0093(HWS)

**3.** David Melding (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd cynlluniau mân anhwylderau mewn fferyllfeydd yng Nghanol De Cymru? OAQ(5)0078(HWS)

**4.** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau orthodonteg yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda? OAQ(5)0094(HWS)**W**

**5.** Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth gofal mewn unedau mân anafiadau yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(5)0087(HWS) **TYNNWYD YN ÔL**

**6.** Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau bydwreigiaeth yng Nghymru? OAQ(5)0079(HWS)

**7.** Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd cynllun ysgol feddygol Bangor? OAQ(5)0088(HWS)**W**

**8.** Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae'n eu cymryd i wella safon gwasanaethau'r GIG yng Nghanol De Cymru? OAQ(5)0089(HWS)

**9.** Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd â byrddau iechyd ynghylch defnydd mwy diogel o feddyginiaethau presgripsiwn? OAQ(5)0086(HWS)

**10.** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen 'Cydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd'? OAQ(5)0080(HWS)

**11.** Hefin David (Caerffili): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi pobl yng Nghymru sydd â haemoffilia ar ôl cael eu heintio o ganlyniad i driniaeth hanesyddol â gwaed a chynnyrch gwaed halogedig y GIG? OAQ(5)0090(HWS)

**12.** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gofal cymdeithasol ar gyfer pobl anabl? OAQ(5)0091(HWS)

**13.** Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol i'r gwasanaethau iechyd yng Nghymru? OAQ(5)0082(HWS)

**14.** Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau iechyd meddwl yn Sir Fynwy? OAQ(5)0084(HWS)

**15.** Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Sut y bydd y polisïau yn rhaglen Llywodraeth Cymru, 'Symud Cymru Ymlaen', yn gwella iechyd plant yng Nghymru? OAQ(5)0081(HWS)